Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION CYFARFOD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Gwener, 23 Mai 2025, am 10am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Phil Kloer | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Gwasanaethau |
| Will Bramble | Gwirfoddol Sir Benfro |
| Jessica Bickerton | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir |
| Tegryn Jones | Penfro (APCAP) |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Y Cynghorydd Neil Prior | CSP |
| Y Cynghorydd Marc Tierney | CSP |
| Tom Moses | Un Llais Cymru |
| Eva Rees | Cyfarwyddwr Taith y Dysgwr, Coleg Sir Benfro |
| Bruce Bolam | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd |
| Tom Luddington | Prifysgol Hywel Dda |
| Caroline Drayton | Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| Darren Mutter | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Claire Germain | (gadawodd am 12.00) |
| | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP (gadawodd am |
| Daniel West | 11.00) |
| Mererid Lewis | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a |
| Lucy Wonnacott | Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Alison Perry | Rheolwr y Tîm Ynni a Chynaliadwyedd, CSP |
| Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd | Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is- | Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Gadeirydd) | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Prif Weithredwr, CSP | (cyrhaeddodd am 11.06) |

*Cymorth / ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Rachael Rimmer | Swyddog Cymorth Polisi Corfforaethol, CSP |
| Amy Richmond Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

*Yn bresennol ar gyfer eitem 6*

| | |
|---|---|
| Louise Wilkinson | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Michael Gray | (gadawodd am 11.58) |
| Rhian Bennett | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, CSP (gadawodd |
| Yovieta Andrews | am 11.45) |
| Jessie Buchanan | Uwch-reolwr Comisiynu, CSP |
| | Person Graddedig, CSP (gadawodd am 11.38) |
| | Cyfarwyddwr, Gyda'n Gilydd dros Newid |

*Y sawl sy'n arsylwi*

Sasaf Dar

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Ardiana Gjini<br>Barry Walters<br>Linda Jones<br>Mandy Williams | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Pennaeth, Coleg Sir Benfro<br>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru<br>Cyd-gynhyrchu Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.03am

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan yr unigolion a restrir uchod.

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Cofnod y camau gweithredu**

Cofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu oedd ar ôl wedi'u cwblhau.

**3. Trefniadau cadeirio**

Rhannodd NP ei fod wedi ymddiswyddo o'r cabinet yng Nghyngor Sir Penfro yn ddiweddar ac, fel aelod anweithredol, nid yw bellach yn gallu cadeirio'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cadarnhaodd mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a mynegodd ei ddiolchgarwch i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am yr holl waith ar y cyd y mae wedi'i wneud dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Yn y cyfamser, cytunwyd y byddai PK fel is-gadeirydd yn cadeirio'r cyfarfod. Diolchodd PK i NP am ei holl gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Esboniodd NE y bydd cadeirydd ac is-gadeirydd newydd yn cael eu cadeirio'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2025. Gofynnodd i gydweithwyr ystyried a hoffent ymgymryd â'r naill rôl neu'r llall neu feddwl am enwebu rhywun a fyddai'n hapus i sefyll a thrafod hyn ymysg eu gilydd cyn y cyfarfod nesaf. Dylid dod ag enwebiadau i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf, gyda chydsyniad yr enwebai. Eglurodd NE, os oes gan sefydliadau gynrychiolwyr lluosog sy'n mynychu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mai dim ond un bleidlais fydd fesul sefydliad ar gyfer y rolau yn hytrach nag un fesul aelod. Dylai unrhyw un sydd eisiau rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r rolau hyn yn ei olygu gysylltu ag NE neu NP.

Mynegodd TJ, o'i brofiad ef, mai'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â rôl cadeirydd ac is-gadeirydd fyddai Cyngor Sir Penfro a'r bwrdd iechyd gan fod ganddynt fwy o ddylanwad i yrru agenda gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymlaen. Dywedodd PK fod hyn yn rhywbeth i'w ystyried, ond ei bod hi'n bwysicaf i'r cadeirydd newydd fod yn bwrpasol ac yn angerddol am y rôl.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Bydd yr aelodau'n ystyried pwy yr hoffent fod yn gadeirydd ac yn is-gadeirydd nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cyflwyno eu henwebiadau yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf **(Pawb)**.

**4. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025**

Cyflwynodd PK Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 a thynnodd sylw at y ffaith, gan ei bod yn ddogfen hir, fod LR wedi llunio fersiwn gryno a oedd wedi'i chynnwys ym mhecyn yr agenda. Nododd y byddai'n ddefnyddiol cael adborth y grŵp ar y negeseuon, canfyddiadau ac argymhellion allweddol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dywedodd IT fod llawer o fomentwm cenedlaethol wedi bod ar gynllun gwydnwch bwyd. Tynnodd sylw at y ffaith nad yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi canolbwyntio'n wirioneddol ar wydnwch bwyd yn y gorffennol, ond ei fod yn ymwneud â llawer o feysydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gwasanaethau y mae partneriaid yn eu darparu. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi dechrau canolbwyntio ar fwyd yn ddiweddar, ac mae tîm yn Hywel Dda sy'n edrych ar ddull systemau cyfan o ran pwysau iach. Awgrymodd IT fod gwydnwch bwyd yn rhywbeth y dylai Sir Benfro fod yn edrych arno yn y dyfodol, gan mai dyma'r unig Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngorllewin Cymru sydd heb ddechrau archwilio'r maes gwaith hwn. Nododd y gallai Sue Latham, cydgysylltydd Partneriaeth Bwyd Lleol Sir Benfro, gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn cyfarfod yn y dyfodol ar y gwaith o amgylch bwyd yn Sir Benfro. Nododd PK fod bwyd yn rhywbeth a ystyriwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan osodwyd y cynlluniau llesiant yn wreiddiol. Ychwanegodd fod hyn yn rhywbeth y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ystyried eto fel rhan o'i agenda pan etholir cadeirydd newydd. Cytunodd WB, gan bwysleisio bod hwn yn gyfle i weithio gyda'r sectorau amaethyddiaeth a thwristiaeth i edrych ar gynllun gwydnwch cydlynol ar lefel leol a rhanbarthol.

Rhannodd ML fod cydweithwyr yn Cyd-gynhyrchu Cymru wedi bod yn cynnal gweithdai mapio asedau gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ar y rhaglen pwysau iach. Ychwanegodd, pe bai Sir Benfro eisiau gwneud yr un peth, y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gysylltu â Mandy Williams. Rhannodd BB ei gefnogaeth i hyn a'r dull systemau cyfan sy'n cael ei ddatblygu yn Nyfed–Powys. Awgrymodd y gellid mynd â'r mater hwn oddi ar-lein i ganiatáu i gydweithwyr edrych ar argymhellion yr adroddiad llesiant a nodi pa rannau o'r gwaith hwn y gellid eu cyflymu dros yr ychydig fisoedd nesaf, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf.

Dywedodd JB ei bod wedi mynychu lansiad yr adroddiad yng Nghaerdydd, ac roedd un o'r argymhellion penodol yn ymwneud â strwythurau a phartneriaethau. Nododd fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro wedi cael gwahoddiad i arwain sesiwn ar gydweithio ym maes iechyd a llesiant yng nghynhadledd flynyddol CGGC yng Nghaerdydd. Rhannodd ei bod â diddordeb mewn clywed barn ar sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweld ei strwythurau a'i bartneriaethau, gan y byddai hwn yn gyfle da i rannu'r wybodaeth hon, yn ogystal â'r cryfderau y gall partneriaethau da eu cael ar iechyd a lles. Dywedodd PK fod perthnasoedd cryfach wedi'u sefydlu drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod y rhain yn gosod sylfaen dda i'r grŵp. Nododd fod angen trosi hyn yn drefn a gweithredu, ac y gallai strwythurau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn fwy syml, yn ôl pob tebyg. Byddai hyn yn fater i'w ystyried gan gadeirydd newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ychwanegodd WB nad oes gan Gymru strwythurau integredig ar lefel y bwrdd yn y ffordd sydd gan Loegr, gan ei gwneud hi'n anoddach alinio ac ymrwymo adnoddau. Nododd fod gan Sir Benfro fyrddau partneriaeth sy'n gynyddol dda ac sy'n gwella'n gyson. Cytunodd TJ fod Sir Benfro yn wynebu ffiniau a rhwystrau oherwydd y gwahanol strwythurau sydd ar waith, ond ei bod hi'n bwysig edrych ar sut rydym yn gweithredu gyda'r hyn sydd ar gael i ni a sut y gallwn oresgyn y rhwystrau llai.

Nododd TJ nad yw gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys dimensiwn diwylliannol ar hyn o bryd, a bod nifer o gyrff lleol a chenedlaethol o'r sector diwylliannol a allai roi mewnbwn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y maes hwn. Awgrymodd gysylltu â rhai o'r cysylltiadau hyn er mwyn gweld sut y gallai diwylliant ddylanwadu ar rai o'r eitemau eraill ar agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chroestorri â nhw. Cytunwyd fod hyn yn rhywbeth y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried ei gyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol.

Trafododd TM fod cynllunio gweithredu ym meysydd cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen arall y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei hystyried yn y dyfodol. Nododd y gallai'r

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd drwy godi ymwybyddiaeth o'r agenda cynaliadwyedd. Gellid bwydo'r wybodaeth hon i'r cyhoedd fesul tipyn a'i chydlynu â chynghorau tref a chymuned. Mae mwy o ymgysylltiad yn gofyn am gydweithio ag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus. Ychwanegodd NP fod y bwrdd wedi cytuno ar bedwar pwynt allweddol i'w hystyried wrth benderfynu sut a phryd y dylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfathrebu:

1. Fyddai'n dda dweud rhywbeth?
2. A fyddai unrhyw fuddiant cyhoeddus?
3. Oes galwad i weithredu?
4. Oes cynulleidfa ddiffiniedig?

Cytunodd PK fod y pedwar pwynt hyn yn ffordd ddefnyddiol o strwythuro cyfathrebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cwestiynodd PK a ddisgwylir i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi ymateb ffurfiol i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025. Eglurodd NE fod y cyngor wedi cael cais i ymateb, ond y byddai'n darganfod a oedd hyn yn ymestyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ychwanegodd na fyddai'r dyddiad cau ar gyfer hyn tan fis Medi/Hydref felly mae amser i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried yr argymhellion.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Mapio'r argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn erbyn gweithgareddau cyfredol a datblygu cynigion i lenwi unrhyw fylchau, gan gynnwys:
  - Sut y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus **(BB, ML, IT, MW)** ymdrin â maes gwaith gwydnwch bwyd
  - Cynrychiolwyr y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gysylltu â nhw i gael rhagor o wybodaeth am gyfranogiad y sector diwylliannol **(Pawb)**
- Darganfod a ddisgwylir i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 **(NE)**

## 5. Uwchgynhadledd Tlodi Sir Benfro – trosolwg ac adborth

Cafodd yr eitem hon ar yr agenda ei chyflwyno.

Rhoddodd DM yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Uwchgynhadledd Tlodi:

- Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Tlodi Sir Benfro ar 16 Ebrill 2025 yng Ngholeg Sir Benfro. Roedd yna nifer dda o tua 100 o bobl yn bresennol.
- Roedd y diwrnod yn cynnwys siaradwyr, fel Sefydliad Bevan, a gweithdai. Anogodd y gweithdai'r mynychwyr i ystyried pa gamau cadarnhaol y gellir eu cymryd i helpu i ddatrys problemau sy'n ymwneud â thlodi.
- Yn Uwchgynhadledd Tlodi 2024, awgrymodd adborth fod prif negeseuon y digwyddiad yn taro'r galon yn galed. Nid oedd llawer o'r mynychwyr yn sylweddoli pa mor helaeth oedd tlodi yn Sir Benfro i ddechrau. Cymerodd uwchgynhadledd eleni ymagwedd fwy cytbwys, gan gyfleu'r neges, er nad oedd tlodi am ddiflannu, fod gwaith cadarnhaol a rhagweithiol y gellir ei wneud i gefnogi a helpu pobl.
- Roedd yr uwchgynhadledd yn cynnwys cyflwyniad ar y llwyfan LIFT newydd sydd newydd fynd yn fyw. Bydd y traciwr teuluoedd incwm isel hwn yn cael ei ddefnyddio i nodi carfanau o bobl sydd â hawl i fudd-daliadau penodol a nodwyd, ond nad ydynt yn eu hawlio. Mae'r ymgyrch gyntaf ar gyfer y llwyfan yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd a byddai cefnogaeth amlasiantaeth ar gyfer hon yn fuddiol.
- Mae strategaeth gyfathrebu a chydweithio yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o'r ymgyrch o gwmpas llwyfan LIFT. Mae

hyn yn cynnwys ymgysylltu ag aelodau etholedig a sicrhau aelodau'r cyhoedd bod y llythyrau y gallent eu derbyn am hyn yn ddilys.

- Mae trefnwyr yr uwchgynhadledd tlodi yn dal i aros am werthusiadau ac adborth gan y mynychwyr. Gofynnodd DM i unrhyw un nad yw eisoes wedi rhoi adborth wneud hynny cyn gynted â phosibl, gan y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i helpu i drefnu digwyddiad y flwyddyn nesaf.

Diolchodd MT i DM am ei gyfranogiad yn y digwyddiad, gan nodi ei fod yn gyfle da i fyfyrio ar heriau a gwneud gwahaniaeth ym mywydau trigolion. Ychwanegodd PK fod Sir Benfro yn un o'r ardaloedd tlotaf yn Ewrop o safbwynt economaidd a'i bod yn werth ystyried sut y gall y gwaith hwn ddod yn fwy o ymdrech bartneriaeth.

**6. 'Sbotolau' ar gryfhau cymunedau**

*Strategaeth gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro*

Trafododd LW y strategaeth gwirfoddoli ar gyfer Sir Benfro:

- Mae'r strategaeth gwirfoddoli newydd wedi'i dosbarthu'n eang ac mae wedi'i chynnwys ym mhecyn agenda'r cyfarfod hwn.
- Gan fod y strategaeth bellach wedi'i datblygu, gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried ei chymeradwyo a darparu dyfyniad i'w gynnwys yn y ddogfen.
- Mae'r strategaeth yn cael ei lansio'n swyddogol mewn digwyddiad ar 25 Mehefin 2025. Mae croeso i bartneriaid fynychu'r digwyddiad hwn.
- Bydd y digwyddiad lansio yn ystyried sut olwg fydd ar lwyddiant y strategaeth, a bydd yn cynnwys llunio camau gweithredu fel cynllun gweithredu.
- Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector wedi dangos diddordeb yn y strategaeth a bydd rhai sefydliadau o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn cefnogi'r strategaeth yn unigol. Bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno i gabinet Cyngor Sir Penfro'n fuan er mwyn cael ei hystyried.

Gofynnodd LW i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried cymeradwyo'r strategaeth.

Tynnodd TJ sylw at y ffaith, os bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn penderfynu cymeradwyo'r strategaeth, y gallai pobl dybio bod pob sefydliad unigol yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei chymeradwyo'n unigol. Nododd nad yw pob sefydliad efallai eisiau gwneud hyn, ond y gallai rhai yn hytrach gymeradwyo a chyfeirio at strategaeth Sir Benfro fel rhan o'u strategaethau gwirfoddoli unigol eu hunain. Eglurodd LW fod Sue Leonard o Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro yn wreiddiol eisiau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymeradwyo'r strategaeth oherwydd y ffocws cynyddol ar wirfoddoli mewn sefydliadau ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cwestiynodd ER a yw fformatau gwahanol, cynhwysol o'r strategaeth gwirfoddoli yn cael eu datblygu, fel cynnwys gwirfoddolwyr ifanc. Cadarnhaodd LW fod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried.

Mynegodd MG fod y strategaeth yn gryf yn ei gweledigaeth a'i hegwyddorion ond ei bod yn llai clir ynghylch sut mae'r rhain yn cael eu trosi'n weithredu. Ychwanegodd, os yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd i gymeradwyo'r strategaeth, bod angen iddo ddangos ym mha ffordd y mae'n ei chymeradwyo a gwneud ymdrech ar y cyd i ddatblygu camau gweithredu. Nododd MG hefyd y gellid diwygio iaith y strategaeth i fod yn fwy cynhwysol, gan fod rhai pobl yn hoffi ystyried eu hunain yn fwy o 'ddinesydd gweithredol' nag yn 'wirfoddolwr'. Nododd LW fod hyn wedi cael ei drafod yn helaeth yn ystod y broses ymgynghori ac ymgysylltu wrth ddatblygu'r strategaeth. Penderfynwyd y byddai'r strategaeth

yn canolbwyntio ar 'ecosystem gwirfoddoli' sy'n groesawgar i bawb, ni waeth faint o amser y maent yn dewis ei dreulio yn gwirfoddoli.

Dywedodd PK, gan fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cefnogi datblygiad Strategaeth Gwirfoddoli Sir Benfro, y byddai'n anodd i'r grŵp beidio â'i chymeradwyo oni bai fod gan unrhyw un unrhyw broblemau clir gyda'r ddogfen ei hun.

Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymeradwyo'r strategaeth ond, mewn cyfarfod yn y dyfodol, y byddai'r grŵp hefyd yn edrych ar y camau nesaf a sut y gall partneriaid gymryd yr hyn a ddysgwyd o'r ddogfen hon i'w strategaethau eu hunain.

*Strategaeth Gymunedol Sir Benfro*

Rhoddodd YA ddiweddariad ar ddatblygiad Strategaeth Gymunedol CSP:

- Mae'r strategaeth hon yn cael ei datblygu wrth i wasanaethau cyhoeddus fod dan bwysau; mae ymddiriedaeth mewn modelau o'r brig i lawr yn methu; mae cymunedau eisiau dulliau mwy ymatebol a lleol; a dangosodd y pandemig bŵer a phwysigrwydd cymunedau.
- Nod y strategaeth yw creu cyngor sy'n cael ei yrru gan bobl sy'n cydweithio â chymunedau, yn cryfhau dyfeisgarwch lleol, ac yn gwella llesiant.
- Cynhaliwyd gweithdy cydgynhyrchu gyda grŵp cymunedol ym mis Mawrth, ac mae rhestr ddrafft o gamau gweithredu wedi'i chreu o ganlyniad. Mae egwyddorion cyffredin a godwyd yn ystod trafodaethau gyda'r grŵp yn cynnwys meithrin ymddiriedaeth trwy ddeialog onest a pharhaus; mynd i ble mae'r bobl; teilwra ymgysylltiad (yn hytrach nag un maint i bawb); a dathlu, rhannu a dysgu o'r hyn sy'n gweithio.
- Wrth symud ymlaen, bydd gwaith ar y strategaeth yn blaenoriaethu ymgysylltu a darganfod ystyrlon pellach, yn ogystal â chysylltu ag 'edau aur' y cyngor.

Cwestiynodd ML a yw YA yn cysylltu â Sophie Buckley o Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro mewn perthynas â'r gwaith hwn, gan ei bod hi'n ymwneud â'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn Sir Benfro. Eglurodd YA nad yw hi wedi bod mewn trafodaeth â Sophie eto ond bod hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried.

Rhannodd TM ei fod hefyd wedi bod yn rhan o Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Sir Benfro, ac y byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ryddhau amser ac adnoddau rhai staff ymgysylltu i helpu i gefnogi'r rhwydwaith. Byddai hyn yn golygu y byddai'r rhwydwaith yn gallu cyd-fynd yn well â gwaith cyflawni strategol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd PK y gallai timau ymgysylltu fod yn fwy cysylltiedig â'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu.

Tynnodd JB sylw at y ffaith, er bod rhai yn gweld y maes gwaith hwn fel 'blaenoriaeth isel', mai atal yw nod y gwaith, a ddylai fod yn flaenoriaeth uchel i bob sefydliad o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd y gellid ailfframio terminoleg i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Cytunodd YA fod hwn yn fater pwysig i fynd i'r afael ag ef.

Trafododd IT ei fod yn cael ei gydnabod bod heriau gweithredol o amgylch gwaith cymunedau ac mae'n amlwg bod yr awdurdod lleol yn ceisio peidio â dyblygu'r hyn sydd eisoes ar waith. Ychwanegodd fod harneisio gweithio mewn partneriaeth yn bwysig yma. Nododd IT fod PLANED, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru wedi bod yn edrych ar lwyfan ar-lein a all gefnogi sefydliadau cymunedol gyda rhai o'r heriau maen nhw'n eu hwynebu, fel gwaith papur llethol a chynllunio gweithredu. Bydd hwn yn offeryn gwe awtomataidd ar gyfer Sir Benfro ac mae

eisoes ar gael mewn fersiwn beta. Cynhelir gweithdy i hyrwyddo hyn pan fydd ar waith yn swyddogol.

Rhannodd PK fod y bwrdd iechyd yn gwneud rhywfaint o waith gofal sylfaenol a strategaeth gymunedol ar hyn o bryd, ac y byddai'n dda bod yn gyson â'r strategaeth gymunedol o ran hyn. Cwestiynodd a oes amserlen ar gyfer Strategaeth Gymunedol PCC fel y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weld fersiwn ddrafft. Cadarnhaodd YA fod dogfen ddrafft yn debygol o fod yn barod ym mis Gorffennaf/Awst ar ôl ymgysylltu pellach.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Ychwanegu'r strategaeth gymunedol at agenda cyfarfod yn y dyfodol (Gorffennaf neu Hydref) fel y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd **(LR)**

*Prosiectau ymgysylltu a chydgynhyrchu*

Mae tri phrosiect ymgysylltu a chydgynhyrchu ar y gweill ar hyn o bryd, pob un wedi'i fanylu ym mhecyn agenda'r cyfarfod:

- Cynllunio Gweithredu Llesiant Cymunedol
- Hwb Cymunedol Preseli – sesiynau cydgynhyrchu a gwrando
- Mae'r Cyfan yn Cymryd Amser – ymgysylltu a chydgynhyrchu ar gyfer lles integredig

Trafododd JBu fod Cynllunio Gweithredu Llesiant Cymunedol yn brosiect peilot i gefnogi cynghorau tref a chymuned i gadarnhau cynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar lesiant. Arweiniwyd y gwaith hwn gan TM rhwng mis Hydref 2024 a mis Ionawr 2025. Datblygwyd dau gynllun o ganlyniad o Grymych a Thyddewi, a bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Argymhellodd adroddiad cysylltiedig Gyda'n Gilydd dros Newid fod angen ymgorffori mecanweithiau o amgylch sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu creu. Yn ogystal, er mwyn meithrin ymddiriedaeth a datblygu cynlluniau, mae angen neilltuo digon o adnoddau ac amser ar eu cyfer.

Argymhellodd JB yn gryf y dylai partneriaid ddarllen drwy'r adroddiadau gan eu bod yn dangos gwerth ymgysylltu a chydgynhyrchu. Dim ond yn y tymor byr y cafodd y prosiectau hyn eu hariannu ac nid oes unrhyw gyllid craidd ar gael iddynt yn y dyfodol. Ychwanegodd JB ei bod hi'n bwysig cynnal gwaith cydgynhyrchu'n iawn, gan y gall gwaith cydgynhyrchu gwael fod yn niweidiol i gymunedau a'r rhai sydd â phrofiadau bywyd. Nododd fod prosiect Preseli yn gweithio gyda phobl ag anghenion gofal uchel yn eu hamgylchedd, mewn cyd-destun anodd lle mae gwasanaethau a chymorth dan bwysau. Yn yr achos hwn, helpodd proses gydgynhyrchu gwaith cyflawni i symud pethau ymlaen, ynghyd â meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd effeithiol. Awgrymodd JB fod angen llunio cynllun gweithredu ar sut i fabwysiadu'r dull hwn mewn meysydd gwaith eraill.

Cadarnhaodd JB hefyd y byddai cyfarfod arall o'r Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf i sicrhau nad yw'r momentwm y tu ôl i'r prosiectau hyn yn cael ei golli oherwydd diffyg cyllid. Rhannodd RB fod cyllid tymor hwy ar gyfer y prosiectau hyn yn cael ei ystyried gan y grŵp strategol a chynhelir cyfarfod ar gyfer hyn yn fuan. Cynigiodd ML gefnogaeth Cyd-gynhyrchu Cymru i ddod o hyd i ateb.

Rhannodd TM ei fod wedi bod yn gweithio gyda grŵp addasu i'r hinsawdd ar becyn cymorth addasu i'r hinsawdd. Nododd fod y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu wedi helpu gyda dysgu a gwaith cymunedol ar gyfer y pecyn cymorth hwn, a bod y rhwydwaith yn adnodd gwerthfawr.

*Y Newid Mwyaf Arwyddocaol*

Diolchodd JBu i aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd wedi mynychu'r sesiwn yn y cyfarfod blaenorol ar y Newid Mwyaf Arwyddocaol. Nododd fod y cyllid ar gyfer hyn yn dod at ei gilydd a bod y Newid Mwyaf Arwyddocaol yn ymddangos yn gyfle i gefnogi dysgu myfyriol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae yna rai meysydd dysgu allweddol o hyd ar gyfer y Newid Mwyaf Arwyddocaol y mae angen eu hystyried:

- Trylwyredd sut mae straeon a thystiolaeth yn cael eu casglu.
- Angen i gynnwys pobl mewn ffordd gydweithredol wedi'i chydgynhyrchu.
- Buddsoddi amser ac ymrwymiad, gan sicrhau bod hyn yn cael ei droi'n weithredu.
- Sicrhau esblygiad y Newid Mwyaf Arwyddocaol fel ffordd o ddysgu a gwerthuso – mae cydlynydd rhan-amser wedi'i recriwtio i gefnogi hyn.

Yng nghofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cytunwyd y byddai rhywfaint o rôl i'r Newid Mwyaf Arwyddocaol yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. Gofynnodd JBu sut y bydd hyn yn cael ei gefnogi yn y dyfodol. Awgrymodd PK y gellid cymhwyso'r Newid Mwyaf Arwyddocaol o bosibl i is-grwpiau arian y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 7. Grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – cadeirio a chyflawni prosiectau

Trafododd PK fod angen cadeirydd newydd ar gyfer Is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd angen i'r cadeirydd newydd ystyried sut mae'r grŵp yn gweithredu wrth symud ymlaen a sut i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau. Mynegodd PK nad oes angen i unrhyw un sydd am ystyried ymgymryd â rôl cadeirydd fod yn arbenigwr ym mhob maes o agenda'r grŵp, ond y dylent fod yn angerddol am y gwaith sy'n digwydd.

Dywedodd TJ, os byddai rhywun yn cymryd lle Darren Thomas o fewn yr awdurdod lleol, yna mae'n debyg mai'r person hwn fyddai yn y sefyllfa orau i ymgymryd â rôl cadeirydd yr Is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd. Dywedodd ei fod yn hapus i gamu i'r bwlch a chadeirio'r grŵp yn y cyfamser, ond y byddai rhywun o'r awdurdod lleol yn fwy priodol yn y tymor hir. Eglurodd NE nad yw rôl Darren Thomas yn cael ei disodli ar sail 'tebyg am debyg' ac felly na fydd o reidrwydd yn cael ei disodli'n naturiol. Cadarnhaodd fod yn rhaid i gadeirydd yr is-grŵp fod yn aelod parhaol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn arwain a noddi'r gwaith a bod mewn sefyllfa i uwchgyfeirio unrhyw faterion o gyfarfodydd grŵp i lefel y bwrdd.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Ystyried mater cadeirydd yr Is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd y tu allan i'r cyfarfod ac edrych ar ffordd o symud ymlaen **(NE/TJ)**

## 8. Yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (er gwybodaeth)

Nododd PK fod y diweddariadau ysgrifenedig ar gyfer pob maes prosiect ym mhecyn agenda'r cyfarfod er gwybodaeth ac anogodd gydweithwyr i'w darllen.

## 9. Adroddiad blynyddol drafft 2023-24 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Dywedodd LR fod adroddiad blynyddol drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ddatblygu a bydd angen mewnbwn gan y gwahanol feysydd prosiect o ran gwelliannau/ychwanegiadau ar feysydd fel cyflawni prosiectau dros y 12 mis nesaf. Cynigiodd PK ei gefnogaeth i'r broses hon.

Cwestiynodd TJ a oes angen mwy o waith fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr amcan llesiant o ran yr economi y cyfeirir ato yn yr adroddiad. Mynegodd NE fod llawer o waith yn digwydd ar draws agenda'r economi ac nad yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisiau dyblygu'r gwaith hwn, fel yr amlinellwyd yn y cynllun llesiant ac fel yr oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno pan gafodd y cynllun ei gymeradwyo. Yn hytrach na chael prosiect penodol ar gyfer yr economi, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cysylltu â grwpiau a meysydd gwaith perthnasol lle bo'n briodol. Awgrymodd TJ y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd y Grŵp Uchelgais Economaidd i fod yn un o is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunwyd ar y cam gweithredu canlynol:

- Dosbarthu gwybodaeth am adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r cais am gefnogaeth gan bartneriaid **(LR)**

**10. Unrhyw fater arall**

Nododd LR fod problem gyda rhai aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn derbyn papurau ar gyfer y cyfarfod hwn oherwydd maint y ffeil. Eglurodd fod papurau cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cynnal gan PLANED ar eu gwefan, felly gellir dod o hyd iddynt yno ychydig ddyddiau cyn y cyfarfod os bydd unrhyw un yn methu eu cyrchu yn y dyfodol.

Ychwanegodd NE hefyd fod Ceredigion wedi gofyn i swyddogion archwilio cyfleoedd o amgylch uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail ranbarthol yn ffurfiol, er mwyn gweithio'n fwy cydweithredol. Cyflwynwyd cais tebyg gan Sir Gaerfyrddin tua phedair blynedd yn ôl, ond cafodd hwn ei wrthod ar y pryd. Mae trafodaethau ar gyfer hyn yn parhau ac nid oes unrhyw gynigion pendant eto, ond mae'n debygol y bydd rhywbeth yn dod ymlaen yn yr hydref.

Nododd PK y bydd y bwrdd iechyd yn lansio ymgynghoriad clinigol yn fuan a bydd diweddariad ar hyn yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.07pm.

**Cofnod o'r camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | Bydd yr aelodau'n ystyried pwy yr hoffent fod yn gadeirydd ac yn is-gadeirydd nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cyflwyno eu henwebiadau yn y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf. | Erbyn y cyfarfod nesaf | Pawb | |
| 2 | 4 | Mapio'r argymhellion yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn erbyn gweithgareddau cyfredol a datblygu cynigion i lenwi unrhyw fylchau, gan gynnwys:<br>○ Sut y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymdrin â maes gwaith gwydnwch bwyd<br>○ Cynrychiolwyr y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gysylltu â nhw i gael rhagor o wybodaeth am gyfranogiad y sector diwylliannol | Erbyn y cyfarfod nesaf | (BB, ML, IT, MW)<br>(Pawb) | Gweler Eitem 5 ar yr agenda |
| 3 | 4 | Darganfod a ddisgwylir i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb i Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025. | Cyn gynted â phosib | NE | |
| 4 | 6 | Ychwanegu'r strategaeth gymunedol at agenda cyfarfod yn y dyfodol (Gorffennaf neu Hydref) fel y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ei chynnydd. | Cyfarfod mis Gorffennaf/Hydref | LR | Wedi'i gwblhau (agenda dros dro mis Hydref) |
| 5 | 7 | Ystyried mater cadeirydd yr Is-grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd y tu allan i'r cyfarfod ac edrych ar ffordd o symud ymlaen. | Cyn gynted â phosib | NE, TJ | |
| 6 | 8 | Dosbarthu gwybodaeth am adroddiad blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r cais am gefnogaeth gan bartneriaid. | Cyn gynted â phosib | LR | Wedi'i gwblhau |